

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

(O BELL TRWY TEAMS)

Aelodau'n bresennol:

Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021

**Cadeirydd:** Aelod S.Paddison

**Is-gadeirydd:** Aelod S.Pursey

**Cynghorydd:** C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, R.Davies,  
S.K.Hunt, A.N.Woolcock, S.Renkes a/ac  
M.Protheroe

**Aelodau Lleol:** Aelod M.Crowley (Sandfields East), E.V.Latham  
(Sandfields East) a/ac D.Whitelock (Bryn and  
Cwmavon)

**Swyddogion yn  
bresennol:** S.Ball, R.MacGregor, T.Davies, N.Headon a/ac  
T.Davies

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Pursey Parthed: Ceisiadau Cynllunio Rhifau  
P2020/0992 a P2020/1041, gan mai ef yw'r  
Aelod Ward Lleol. Nid oedd o'r farn bod ei  
fudd yn niweidiol felly roedd yn gallu  
pleidleisio a siarad.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol  
a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021 fel cofnod  
cywir.

3. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

4. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif P2020/0992 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi rhoi amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddi gael ei dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw am y rhesymau a'r amgylchiadau arbennig canlynol: nid oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac roedd am sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

5. **CAIS RHIF P2020/0992 - RHODFA BEVIN, SANDFIELDS**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (adnewyddu'r 69 o fflatiau 2 ystafell wely presennol, newid 3 fflat 2 ystafell wely yn 3 fflat 1 ystafell wely newydd ac adeiladu 1 fflat 2 ystafell wely a 54 o fflatiau 1 ystafell wely ychwanegol, gyda lle parcio cysylltiedig ynghyd â gwaith tirlunio ac isadeiledd ar dir i'r Gogledd o Bevin Avenue, Sandfields) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'r ward lleol yn bresennol i gyflwyno'u sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2020/09924, yn unol ag argymhellion swyddogion, ac yn amodol ar Adran 106 ac amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a'r amod ychwanegol a nodwyd yn y Daflen Ddiwygio.

6. **CAIS RHIF P2020/1071- TIR YN HEOL TABOR, CWMAFAN.**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Adeiladu 4 byngalo ar wahân a 2 annedd pâr (Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw)

Ar dir yn Heol Tabor, Cwmafan, SA12 9PS) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2020/1041 yn unol ag argymhellion swyddogion a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **CAIS RHIF P2020/1041 - 45 HEOL VICTORIA, SANDFIELDS**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid defnydd o siop gyfleustra (Defnydd Dosbarth A1) a newid fflat 4 ystafell wely cysylltiedig (Defnydd Dosbarth C3) yn HMO 8 ystafell wely (Defnydd Dosbarth Sui Generis), gan gynnwys gosod ffenestri newydd yn 45 Heol Fictoria Road, Sandfields, SA12 6QG) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'r ward leol yn bresennol i roi eu sylwadau, yn ogystal ag asiant i'r ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2020/1041 yn unol ag argymhellion swyddogion a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. **GORFODI - ADRODDIAD AMHRIODOLDEB - PARC GOSHEN, SGIWEN**

**PENDERFYNWYD:** Na fyddai'n fuddiol mynd ar drywydd unrhyw gamau gorfodi mewn perthynas â'r gwaith mynediad anawdurdodedig a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ar yr amod bod yr Awdurdod Glo yn adfer y tir i'w gyflwr blaenorol unwaith y bydd y mynediad gwreiddiol i Barc Goshen ar gael ar gyfer cerddwyr a thraffig cerbydau.

## **CADEIRYDD**